# TAG UG CBAC
# ASTUDIAETHAU CREFYDDOL (CYMRU)

## I'w addysgu o 2016
## UG i'w ddyfarnu o 2017
## Safon Uwch i'w dyfarnu o 2018

## CRYNODEB O'R ASESU (DRAFFT)

UG (2 uned)

**UG Uned 1 Cyflwyniad i'r Astudiaeth o Grefydd**
**Arholiad ysgrifenedig: 75 munud**
**15% o'r cymhwyster**

Mae'r uned hon yn cynnig y dewis i astudio **un** grefydd o ddewis o chwech:

| Opsiwn A: | Opsiwn B: | Opsiwn C: | Opsiwn Ch: | Opsiwn D: | Opsiwn DD: |
|---|---|---|---|---|---|
| Cristnogaeth | Islam | Iddewiaeth | Bwdhaeth | Hindŵaeth | Sikhiaeth |

Bydd pob opsiwn yn cynnwys pedair thema: unigolion crefyddol o bwys a thestunau sanctaidd; cysyniadau crefyddol; bywyd crefyddol; ac arferion crefyddol.

Disgwylir i ddysgwyr ateb **dau** gwestiwn o ddewis o **bedwar** yn yr adran hon.

**UG Uned 2: Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd / Crefydd a Moeseg**
**Arholiad ysgrifenedig: 105 munud**
**25% o'r cymhwyster**

**Adran A:** Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd

Bydd yr uned hon yn cynnwys pedair thema: dadleuon cosmolegol dros fodolaeth Duw; dadleuon teleolegol dros fodolaeth Duw; anfodolaeth Duw – problem drygioni; a phrofiad crefyddol.

Disgwylir i ddysgwyr ateb **un** cwestiwn o ddewis o **dri** yn yr adran hon.

**Adran B:** Cyflwyniad i Grefydd a Moeseg

Bydd yr uned hon yn cynnwys pedair thema (yn cynnwys moeseg gymhwysol yn themâu dau i bedwar): iaith a syniadau moesegol, Deddf Naturiol Aquinas, Moeseg Sefyllfa Fletcher ac Iwtilitariaeth.

Disgwylir i ddysgwyr ateb **un** cwestiwn o ddewis o **dri** yn yr adran hon.

**Hefyd bydd gofyn i ddysgwyr ddewis un cwestiwn arall, naill ai o Adran A neu Adran B o'r cwestiynau sy'n weddill.**

© WJEC CBAC Cyf.

## Safon Uwch (UG ynghyd â 3 uned arall – gweler isod)

**U2 Uned 3: Astudiaeth o Grefydd (uned ORFODOL)**
**Arholiad ysgrifenedig: 90 munud**
**20% o'r cymhwyster**

**Un cwestiwn seiliedig ar wybodaeth** a **dau gwestiwn dadansoddol** wedi'u cymryd o bedair thema:

Unigolion crefyddol a thestunau sanctaidd, datblygiad hanesyddol o ran syniadau crefyddol, datblygiad cymdeithasol arwyddocaol o ran syniadau crefyddol ac arferion crefyddol sy'n llunio hunaniaeth grefyddol.

**UG Uned 4: Crefydd a Moeseg (uned opsiynol)**
**Arholiad ysgrifenedig: 90 munud**
**20% o'r cymhwyster**

**Un cwestiwn seiliedig ar wybodaeth** a **dau gwestiwn dadansoddol** wedi'u cymryd o bedair thema:

Iaith a syniadau moesegol, Damcaniaeth Foesol Kant, datblygiadau cyfoes ym maes damcaniaeth foesegol ac ewyllys rydd a phenderfyniaeth.

**UG Uned 5: Athroniaeth Crefydd (uned opsiynol)**
**Arholiad ysgrifenedig: 90 munud**
**20% o'r cymhwyster**

**Un cwestiwn seiliedig ar wybodaeth** a **dau gwestiwn dadansoddol** wedi'u cymryd o bedair thema:

Dadleuon ontolegol dros fodolaeth Duw, sialensiau i gred crefyddol, profiad crefyddol ac iaith grefyddol.

**UG Uned 6: Astudiaethau Testunol – Y Testament Newydd yn unig (uned opsiynol)**
**Arholiad ysgrifenedig: 90 munud**
**20% o'r cymhwyster**

**Un cwestiwn seiliedig ar wybodaeth** a **dau gwestiwn dadansoddol** wedi'u cymryd o bedair thema:

Llenyddiaeth y Testament Newydd - Damhegion, Gwyrthiau, Y Llythyrau ac Apocalyptig.

Mae'r grynodeb ddrafft hon yn amlinellu'r fanyleb a'r deunyddiau asesu enghreifftiol sy'n cael eu datblygu i'w hadolygu gan y rheoleiddiwr yng Nghymru.

© WJEC CBAC Cyf.